

**Cofnodion Grŵp Rhanddeiliaid Safle Wylfa a gynhaliwyd
ddydd Iau 8 Mai 2014 yn Ystafelloedd Eleth ac Eilian**

Presennol:

Mr Stuart Law	Cyfarwyddwr Safle Magnox Wylfa
Mrs Karin White	Ysgrifenyddiaeth Grŵp Rhanddeiliaid Safle Magnox
Michelle Humphreys	Safle Magnox Wylfa
Mrs Lowri Joyce	Safle Magnox Wylfa
Mr Mark Thornton	Rheolwr Gwastraff, Safle Wylfa
Mr R Foxhall	Pŵer Niwclear Horizon
Mr M Saunderson	Cynrychiolydd o Gydgynor Safle Wylfa
Mr Fred Brookes	Rheolwr Amgylchedd, Iechyd, Diogelwch ac Ansawdd, Safle Wylfa
Mr Derek Jones	Swyddog Parodrwydd am Argyfwng, Magnox Wylfa
Dr T Davenport	Arolygiaeth Safleoedd (ONR), Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch, NSD
Mr Tim Poole	Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig
Mr Derek Gadson	FIACP
Deborah Ward	Rheolwr Cyfathrebu Corfforaethol yr ADN
Y Cyngorydd A Rowlands	Cyngor Sir Ynys Môn – Ward Seiriol
Y Cyngorydd J Griffith	Cyngor Sir Ynys Môn – Ward Talybolion
Y Cyngorydd K P Hughes	Cyngor Sir Ynys Môn – Ward Talybolion
Y Cyngorydd Aled M Jones	Cyngor Sir Ynys Môn – Ward Twrcelyn (Cadeirydd y Grŵp Rhanddeiliaid Safle)
Y Cyngorydd William T Hughes	Cyngor Sir Ynys Môn – Ward Twrcelyn
Y Cyngorydd Elfed Jones	Cyngor Cymuned Llanbadrig
Y Cyngorydd J H Jones	Cyngor Cymuned Mechell
Y Cyngorydd G W Roberts	Cyngor Tref Amlwch (Is Gadeirydd y Grŵp Rhanddeiliaid Safle)
Mr Thomas Conway	Cymdeithas Gweithwyr Wedi Ymddeol Wylfa a Chlwb Pêl-droed Bae Cemaes
Mrs Jean Jones	Ysgol Syr Thomas Jones
P Wright	Cyfoeth Naturiol Cymru
Mr Robin Grove White	Menter Mechell
Mrs Helen Grove White	Fforwm Celf Ynys Môn
Annette Jones	Sefydliad y Merched
Gwen Jones	Cymen - Cyfieithu ar y Pryd
Elen Williams	Cymen - Cadw Cofnodion

Ymddiheuriadau:

Mr Albert Owen	Aelod Seneddol Ynys Môn
Mr Rhun ap Iorwerth	Aelod Cynulliad Ynys Môn
Mr Richard Parry Jones	Prif Weithredwr Dros Dro - Cyngor Sir Ynys Môn
Mr Dave Clarke	Diogelwch Niwclear Sifil ONR
Mr Richard Kemp	Rheolwr Datblygu Busnes, Tenet Consultants
Mr Nigel Monckton	Pennaeth Cyfathrebu Corfforaethol Magnox
Mr Alan Smith	Pŵer Niwclear Horizon
Mr Hugh Townsend	Heddlu Niwclear Sifil
PC Louise Evans	Heddlu Gogledd Cymru

Mrs J Honey
Pippa Waterman
Mr Martin Wise
Mel O'Hara
Mr Steve Roberts
Mr Alan Hall
Mr Peter Harrup
Y Cynghorydd Llinos Medi Hughes
Y Cynghorydd Richard Owen Jones
Mr Gordon Warren
Y Cynghorydd Val Roberts

Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru
Rheolwr Cyfathrebu Magnox
Ysgol Uwchradd Caergybi
Preswlydd Lleol
Preswlydd Lleol
Swyddog Cynllunio Argyfwng, Dŵr Cymru
ADN
Cyngor Sir Ynys Môn – Ward Talybolion
Cyngor Sir Ynys Môn – Ward Twrcelyn
Pwyllgor Preswylwyr Porth Llechog
Cyngor Tref Amlwch

1. Croeso ac Ymddiheuriadau

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod, ymddiheurodd am yr amser hwyrach nag arfer ar gyfer dechrau a derbyniodd yr ymddiheuriadau uchod. Estynnodd groeso arbennig i Deborah Ward, Rheolwr Cyfathrebu Corfforaethol yr ADN, ac Annette Jones, Sefydliad y Merched Llanfairpwll, a oedd yn ymweld am y tro cyntaf.

2. Cymeradwyo Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar 23 Ionawr 2014

Cynigiwyd bod y cofnodion yn gofnod cywir gan y Cynghorydd William Hughes ac eiliwyd hynny gan y Cynghorydd Gareth Roberts.

3. Materion yn Codi o'r Cofnodion blaenorol

Holodd y Cynghorydd Jac Jones am eitem 12 – y drafodaeth am y broses ethol. Atebodd y Cadeirydd drwy ddweud bod y cyfansoddiad wedi cael ei dderbyn ym mis Ionawr 2013, ac felly nad oedd angen ei drafod ymhellach am y tro. Fodd bynnag, efallai y bydd cyfle i edrych arno eto mewn tua 12 mis.

4. Adroddiad Cyfarwyddwr y Safle

Ar hyn o bryd, roedd paratodau'n cael eu gwneud i aildechrau defnyddio Adweithydd 1 ar ôl cyfnod segur o waith cynnal a chadw llwyddiannus. Y bwriad oedd aildechrau defnyddio'r adweithydd ar ôl 100 diwrnod, ond nid oedd hyn wedi digwydd.

Roedd dau beth nodedig yn berthnasol i'r cyfnod segur. Methodd disg ddiogelu (*bursting disk*) a oedd yn gysylltiedig â falf gollwng nwy er diogelwch pan oedd profion yn cael eu cynnal ar y falf. Arweiniodd hyn at ollwng nwy heb ei hidlo o'r adweithydd am 75 eiliad. Roedd y nwy hwn wedi gollwng drwy lwybr wedi'i awdurdodi, ac nid oedd yn herio'r lefelau hysbysu chwarterol na'r terfyn blynyddol. Roedd wedi dod yn amlwg hefyd nad oedd y trefniadau i warchod y gweithwyr yn ddigonol. Yn ystod y gwaith ar y peil cap, roedd gwaith yn cael ei wneud ar y bibell ddŵr agored tra oedd criw o weithwyr yn gweithio ar do'r peil cap. Nid oedd y rhyngweithio hwn wedi'i nodi a gallai fod wedi arwain at ddod i gysylltiad â'r gweithwyr ar y to. Roedd y digwyddiad wedi'i gategoreiddio dros dro fel digwyddiad INES 1. Yn gryno, gallai'r gweithwyr hyn fod wedi dod i gysylltiad ag ymbelydredd ac nid oedd y safle wedi'u gwarchod. Y cam cynllunio oedd wrth wraidd hyn, a dylai'r gweithwyr fod wedi cael dosimedr. Mae hyn wedi cael ei gofnodi ac ers hynny mae wedi bod drwy weithdrefnau'r cwmni.

Roedd 950 o bobl wedi bod ar y safle fel rheol yn ystod y cyfnod segur a dim ond mân ddigwyddiadau cymorth cyntaf oedd wedi bod, er enghraifft, cefn poenus gan un person ar ôl cyfnod hir o eistedd i lawr, felly roedd Stuart Law yn fodlon iawn ar y cyfan.

Yn ystod y cyfnod segur, roedd oddeutu 900 o bobl wedi mynychu digwyddiad diogelwch undydd o'r enw 'Half Life'. Yn ystod y digwyddiad hwn, cynhaliwyd ymarfer lle'r oedd gweithiwr yn syrthio o uchder. Roedd yn realistig iawn a hwn oedd y digwyddiad hyfforddiant diogelwch gorau yr oedd llawer wedi'i weld.

Y tu hwnt i 102 diwrnod, roedd y safle'n agos iawn at aildechrau eto ac eglurodd SL y weithdrefn ar gyfer aildechrau Adweithydd 1 drwy redeg y prif beiriannau i gynhyrchu stêm. Fodd bynnag, roedd sŵn cnocio wedi'i glywed y tu mewn i un o'r tyrbinau, ac roedd angen ei archwilio. Daeth yn amlwg ei fod yn dod o diwb sy'n darparu olew i'r gwthferynnau. Cafodd y broblem ei chywiro ac roedd posib aildechrau'r tyrbîn.

Hefyd, roedd Llafn Llywio Mewnfa wedi glynu yn ei le ac felly roeddent wedi gorfod rhoi'r gorau i aildechrau'r gwasanaeth. Roeddent wrthi'n tynnu pethau oddi wrth ei gilydd er mwyn gweld beth oedd wedi achosi hyn, a'u trwsio cyn aildechrau'r gwasanaeth. Mae'r Llafnau Llywio Mewnfa i'w gweld yn y Cylchredyddion Nwy a dywedodd SL bod y tri Chylchredydd Nwy arall yn gweithio'n berffaith.

Roedd yr achos diogelwch dros gynaeafu Efen Tanwydd 8 yn cael ei adolygu ac roedd y safle'n aros am Offeryn Trwyddedig gan ONR.

Roedd llawer o ymwelwyr wedi ymweld â'r safle i adolygu cynnydd y cyfnod segur ac roeddent yn hapus iawn gyda'r trefniadau cyfnod segur. Roedd Neil Baldwin, Cyfarwyddwr Rheoli Magnox, wedi ymweld â'r safle ac roedd yn hapus iawn gyda gwaith y cyfnod segur.

Mae Wylfa angen caniatâd o hyd i weithredu tan ddiwedd mis Rhagfyr 2015.

Dywedodd Stuart Law bod Wylfa yn dal i gefnogi nifer o fentrau ledled Ynys Môn, gyda digwyddiadau elusennol yn cael eu cynnal yn rheolaidd gan y staff ar y safle.

Cwestiynau

Holodd Tim Poole faint o ddyddiau oedd wedi mynd heibio yn awr, o ystyried mai'r bwriad oedd cael pethau'n weithredol unwaith eto ar ôl 102 diwrnod. Atebodd S Law drwy ddweud bod oddeutu 130 diwrnod wedi mynd heibio yn awr ers dechrau'r cyfnod segur.

5. Adroddiad Cadeirydd y Grŵp Rhanddeiliaid Safle

Cyfeiriodd Cadeirydd y grŵp at ei adroddiad ysgrifenedig a oedd yn amlinellu'r dyletswyddau a'r gweithgareddau yr oedd wedi ymgymryd â hwy ers y cyfarfod blaenorol.

Tynnodd sylw at y ffaith bod yr Is Gadeirydd ac ef ei hun wedi cyfarfod cynrychiolwyr o Bartneriaeth Cavendish Fluor, Sefydliad Rhiant Gorff newydd Magnox/RSRL, ym Manceinion ar 22 Ebrill, a hefyd Cadeiryddion y Grwpiau Rhanddeiliaid Safle eraill. Fodd bynnag, pwysleisiodd ei bod yn rhy gynnar yn y gweithrediadau iddynt amlinellu unrhyw gynlluniau ac na fyddent yn dechrau tan fis Medi mewn gwirionedd.

Roedd wedi ysgrifennu at Neil Baldwin i ddiolch iddo am yr holl waith yr oeddent wedi'i wneud ac i ddweud bod pawb yn gefnogol i'r staff a oedd yn mynd drwy'r cyfnod pontio hwn.

Atgoffodd Stuart Law yr aelodau mai Energy Solutions oedd yn rheoli o hyd tan 31^{ain} Awst, cyn i Bartneriaeth Cavendish Fluor gymryd yr awenau ar y 1^{af} o Fedi. Dywedodd hefyd y byddai Partneriaeth Cavendish Fluor yn gwneud cyflwyniad i staff Magnox yn Wylfa ddydd Llun y 12^{fed} o Fai, ac y byddai hwn yn gyfle i ofyn cwestiynau a chyfarfod y tîm rheoli newydd ar gyfer Magnox.

6. Diweddariad gan Yr Awdurdod Datgomisiynu Niwclear

Cyflwynodd Deborah Ward adroddiad diweddariad misol yr ADN ar gyfer mis Mai. Nododd bod Partneriaeth Cavendish Fluor wedi cael ei henwi fel y Cynigydd a Ffafrir yn y broses gystadlu am berchnogaeth ar Magnox Ltd a Research Sites Restoration Ltd (RSRL). Yn amodol ar gyfnod pontio llwyddiannus, bydd y cyfranddaliadau ym Magnox Ltd ac RSRL yn cael eu trosglwyddo i'r Bartneriaeth ar 1af Medi. Roedd EnergySolutions wedi cyflwyno hawliad am iawndal am gost llunio eu cais ond nid oeddent yn gwneud cais am wyrddroi'r penderfyniad.

Mae Sellafield Ltd a TEPCO, y ddau ohonynt yn wynebu gwaith glanhau niwclear sydd ymhlith y mwyaf heriol yn y byd, wedi llofnodi datganiad cydweithrediad. Yr ADN, a arweiniodd ymateb y DU i ddiwyddiad Fukushima, oedd y cyfryngwr mewn perthynas â'r cytundeb hwn. Mae TEPCO yn gyfrifol am ddadlygru safle Fukushima, a ddinistriwyd gan y tswnami yn 2011.

Mae'r ADN wedi dod i gytundeb â Toshiba a'i bartner GDF Suez ar brif delerau masnachol cytundeb opsiynau a ddiweddarwyd ar gyfer tir sy'n eiddo i'r ADN yn Moorside ger Sellafield. Mae hwn yn gam allweddol ymlaen mewn galluogi datblygu gorsaf pŵer niwclear newydd ar y safle.

Roedd yr ADN wedi cyhoeddi papur sy'n rhoi crynodeb o gyfraniad cadarnhaol Sellafield at yr economi ranbarthol a chenedlaethol ac yn nodi gweithgareddau sydd ar y gweill i sicrhau gwell manteision economaidd.

Roedd cynllun ymgysylltu'r ADN wedi cael ei gyhoeddi a byddai trafodaethau ar y strategaeth yn cychwyn yn fuan. Roedd Cynllun Busnes 2014-2017 wedi cael ei gyhoeddi hefyd.

Cwestiynau

Nododd y Cynghorydd Jac Jones bod gwybodaeth am waredu gwastraff ar gael ar wefan yr ADN, yn seiliedig ar wirfoddoli; fodd bynnag, roedd yn dymuno cael gwybod pa gynlluniau eraill oedd yn eu lle pe na bai unrhyw wirfoddolwyr yn cynnig eu gwasanaeth.

Atebodd Deborah Ward drwy ddweud mai dim ond y Llywodraeth allai ateb y cwestiwn hwn. Eglurodd bod yr Adran Ynni a Newid Hinsawdd yn arwain ar y dull o ddewis safle a'r broses ymgynghori ar gyfer hyn.

Holodd Thomas Conway am brosiect datgymalu llongau tanddwr y Weinyddiaeth Amddiffyn, nawr bod pum cyfleuster niwclear ledled y DU wedi cael eu datgan fel safleoedd posib ar gyfer storio gwastraff o longau tanddwr niwclear nad ydynt yn cael eu defnyddio bellach. Eglurodd Deborah Ward bod y Weinyddiaeth Amddiffyn wedi bod yn delio â'r mater hwnnw, gyda'r ADN yn darparu cyfarwyddyd technegol. Holodd Thomas Conway pam oedd yr ADN yn gwneud penderfyniadau am storio gwastraff niwclear yn y tymor hir mewn perthynas â llongau tanddwr. Eglurodd Debbie Ward bod y Llywodraeth yn arwain ar y gwaith hwn ond eu bod hwy'n delio â'r ochr dechnegol. Eglurodd mai'r Adran Ynni a Newid Hinsawdd fydd yn gwneud y penderfyniad terfynol.

7. Diweddariad y Swyddfa Rheoleiddio Niwclear

Roedd adroddiad wedi cael ei gyflwyno yn y pecyn cyn y cyfarfod ac roedd Tom Davenport yn croesawu unrhyw gwestiynau neu bwyntiau a oedd angen eu hegluro.

Cwestiynau

Dywedodd y Cynghorydd John Griffiths bod yr adroddiad yn cyfeirio at arolygon ac yn disgrifio'r ymatebion fel 'digonol'. Holodd a oedd gwahanol lefelau yn y categori 'digonol', ee 'da', 'rhagorol' ac ati.

Eglurodd Tom Davenport bod amodau trwydded y safle'n datgan ei bod yn ofynnol i drwyddedeion y safle fod â threfniadau digonol yn eu lle ac nad yw'r ONR yn manylu ar y trefniadau - maent yn gweithio ar sail y trefniadau ac yn gweld a yw'r gwaith o weithredu'n ddigonol. Mae gan ONR

gyfarwyddyd, sydd ar gael ar y wefan, sy'n dangos sut maent yn mesur manwl gywirdeb ac yn archwilio trefniadau. Hefyd, mae gan yr arolygwyr brofiad o'r diwydiant niwclear ac maent yn ymwybodol o'r hyn sy'n ffurfio eu barn. Holodd a oedd hyn yn ateb y cwestiwn a chadarnhaodd y Cyngorydd John Griffiths ei fod yn gwneud hynny.

Aeth y Cyngorydd John Griffiths ymlaen wedyn i ofyn sawl eitem wahanol sy'n cael eu hastudio, a faint o'r rheiny sy'n dderbyniol, er mwyn rhoi gwell darlun o'r gwaith o redeg gorsaf bŵer fel hon.

Eglurodd Tom Davenport bod pob safle trwyddedig yn y DU yn cael cynllun arolygu a oedd yn cynnwys arolygiadau adolygu. Bydd pob un yn arwain at adroddiad ymyriad sy'n datgan beth mae'r arolygydd wedi'i wneud, ac efallai y bydd hefyd yn cynnwys y materion sydd wedi dod i'r amlwg. Mae'r rhain ar gael i'w gweld ar y wefan. Mae'r Arolygwyr yn gwneud penderfyniadau ar lefelau digonolrwydd, ac mae Wylfa'n sgorio'n dda, gyda'r rhan fwyaf o bethau'n cael eu hystyried yn ddigonol. Gwellir gweld crynodebau ar y wefan. Holodd a oedd hyn yn ateb y cwestiwn a chadarnhaodd y Cyngorydd John Griffiths ei fod yn gwneud hynny.

Holodd y Cadeirydd pryd oedd yr adroddiad yn cael ei gyhoeddi, neu pryd oedd ar gael i'r cyhoedd, gan ystyried mai ei ddyddiad oedd 1 Hydref 2013 – 31 Rhagfyr 2013.

Roedd Tom Davenport yn amcangyfrif oddeutu 6 wythnos o ddyddiad cwblhau'r adroddiad, ond roedd yn nwylo pobl eraill o ran ei gyhoeddi ar y wefan. Hefyd, roedd rhaid cofio bod angen ei gyfieithu i'r Gymraeg yn ogystal.

Holodd Robin Grove White a oedd gan Tom Davenport unrhyw sylwadau am y cyfnod segur presennol.

Nododd Tom Davenport bod adroddiad 1 Ionawr - 31 Mawrth yn cael ei gynhyrchu ar hyn o bryd ac yn aros cymeradwyaeth. Roedd yr adroddiad hwn yn cynnwys sylwadau ar y cyfnod segur presennol. Dywedodd bod yr Arolygwyr yn fodlon gyda'r hyn roedd y safle wedi'i wneud. Roedd y cyfarfod sefydlu a'r ymweliad safle wedi'u cynnal ac roedd caniatâd sefydlu wedi'i ddyfarnu ar 11 Ebrill. Roedd wrthi'n cael ei sefydlu pan sylweddolwyd bod gwaith yn dod i'r amlwg. Fodd bynnag, roeddent wedi cytuno i'r ailddechrau gyda'r wybodaeth oedd ganddynt ar y pryd.

8. Diweddariad Is-grŵp Gwastraff Grŵp Rhanddeiliaid Safle Wylfa

Dywedodd Mark Thornton bod y grŵp wedi cyfarfod ar 24 Chwefror a rhoddodd ddiweddariad ar y malurion cyrydiad (Gwastraff Lefel Ganolig (GLG)) yng Nghell Storfa Sych 4. Crybwyllodd bod BICO, cwmni lleol o Fiwmares, wedi gwneud model print 3D o'r Gell Sych, i helpu gydag astudiaethau dichonoldeb ar gyfer adfer. Roedd y gwaith creu opsiynau wedi cael ei wneud ac roedd Mike Hughes Roberts, Arweinydd y Prosiect, yn edrych ar ffyrdd o adfer y deunydd hwn a'i storio, felly mae gwaith paratoi ar droed ar gyfer hynny.

O ran ansawdd tir, roedd strategaeth sylfaenol yn ei lle. Roeddent yn gweithio yn awr ar gynllun nodweddu sy'n cynnwys gwastraff cemegol ac anymbelydrol, a bydd rhaid gwneud rhywfaint o waith erbyn i ni gyrraedd y cam gofal a chynnal a chadw. Canfuwyd asbestos yn y ddaear ers yr adeg pan adeiladwyd y safle a'r cam gweithredu yw adolygu'r cyfarwyddyd newydd a cheisio cyngor gan Gyd-Weithgor y Diwydiant ar Asbestos mewn Pridd.

Mae'r cyd-gynllun rheoli gwastraff ar gyfer y storfa Gwastraff Lefel Isel yn rhoi sylw i ddargyfeirio gwastraff o'r Storfa Gwastraff Lefel Isel. Roedd Gwastraff Lefel Isel wedi cael ei symud o'r safle ar gyfer ei losgi'r bore hwn, ac roedd y safle ar hyn o bryd ddwy ran o dair o'r ffordd at gyrraedd targed y chwarter cyntaf.

O ran canfyddiadau'r adolygiad diogelwch cyfnodol, roedd 35 o ganfyddiadau yn yr ardal rheoli gwastraff. Roedd tri wedi cael eu cau gan eu bod yn cael eu hystyried yn foddhaol ac roedd dau ar ôl – byddai ONR yn adolygu'r tri sydd wedi'u cau. Byddai'n rhaid edrych ar y Cyfleuster Gwastraff Ymbelydrol yn barod ar gyfer y cam gofal a chynnal a chadw a byddai dau weithdy'n cael eu cynnal yr wythnos nesaf i benderfynu pa gyfleusterau fydd eu hangen wrth i ni symud i'r Cam Gofal a Chynnal a Chadw.

9. Aelodaeth o Is Grŵp Gwastraff y Grŵp Rhanddeiliaid Safle

Dywedodd y Cadeirydd bod croeso i'r aelodau gyflwyno eu henwau ar gyfer bod yn aelodau o Is Grŵp Gwastraff y Grŵp Rhanddeiliaid Safle a gofynnodd i'r aelodau rannu'r neges hon a rhoi gwybod i'r ysgrifenyddiaeth os oedd ganddynt ddi-ddordeb. Dywedodd bod y grŵp yn cyfarfod bob chwarter fel rheol, os oes pethau i'w trafod, a dywedodd Mark Thornton ei bod yn ofynnol iddo gyfarfod ddwywaith y flwyddyn.

10. Diweddariad y Cynllun Economaidd-Gymdeithasol

Cyn i Michelle Humphreys wneud ei chyflwyniad, roedd y Cadeirydd yn dymuno canmol y diwrnod Time and Tide Bell/Geo Môn rhagorol a gynhaliwyd yng Nghemaes yn ddiweddar. Roedd yn werthfawrogol iawn o gefnogaeth Magnox i'r prosiect Time and Tide Bell a phrosiect Geo Môn.

Atgoffodd Michelle Humphreys yr aelodau bod cynllun economaidd-gymdeithasol presennol yr ADN/EnergySolutions wedi bod yn weithredol ers dwy flynedd bellach a chyfeiriodd at y cyhoeddiad sy'n dangos i'r cymunedau lle mae'r cyllid o £2,681,641 wedi mynd. Roedd yn braf bod 392 o sefydliadau o 10 cymuned Magnox wedi cael cyfran, a bod yr arian hwn, yn ei dro, wedi creu swyddi, sefydlu busnesau a denu £19.6 miliwn o gyllid allanol.

Manteisiodd y Cadeirydd ar y cyfle i annog pawb i ddefnyddio'r wefan i wneud ceisiadau am hyd at £1000 ar gyfer cymunedau lleol.

Roedd y Cynghorydd Gareth Winston Roberts hefyd yn dymuno diolch i'r cynllun economaidd-gymdeithasol am y gwaith a oedd wedi cael ei wneud er budd Ynys Môn.

Ategodd y Cadeirydd y ffaith eu bod wedi gweld y manteision yn lleol.

Dywedodd Michelle Humphreys bod saith grŵp cymunedol wedi derbyn cyllid yn ystod y flwyddyn ariannol hon. Crybwyllodd bod presenoldeb da iawn yn y digwyddiad Time and Tide Bell yng Nghemaes a'i fod yn ddiwyddiad rhagorol.

Roedd Carnifal Amlwch wedi cael cefnogaeth, a hefyd Cylch Meithrin Pencarnisiog, a oedd yn dathlu 40 mlynedd, Clwb Ffermwr Ifanc Rhosybol a chylch Ti a Fi Llanfairpwll.

Roedd nifer o geisiadau a fyddai'n cael effaith sylweddol ar y gweill hefyd, am gyllid o hyd at £10,000, a byddai'n rhaid i Bwyllgor Gweithredol Magnox eu cymeradwyo. Y gobaith oedd y byddai rhagor o wybodaeth am y rhain yn y cyfarfod nesaf.

Roedd Eisteddfod yr Urdd, a gynhaliwyd yn y Bala eleni, wedi cael cefnogaeth hefyd, a byddai stonidin gyda gêm ryngweithiol o robotiaid yn symud yno, yn efelychu sut mae proses symud tanwydd rhwng adweithyddion Wylfa yn gweithio.

Mynegodd y Cadeirydd ei ddiolch am wneud y diwrnod yng Nghemaes yn un mor gofiadwy.

11. Adroddiad y Pwyllgor Ymgynghori Cynllunio Argyfwng

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Derek Jones ac roedd yn cynnwys y cyfnod o fis Mawrth 2013 hyd y presennol.

Roedd Ymarfer Stingray, yr ymarfer RADSAFE, wedi dangos ymateb y safle i efelychiad o ddamwain ar y ffordd a oedd yn cynnwys llwyth ymbelydrol, lle'r oedd cerbyd wedi mynd i wrthdrawiad â choeden. Actiwyd pobl wedi'u hanafu a chafodd yr actorion (staff Wylfa) eu canmol am fod mor realistig. Cafodd yr ymarfer hwn sylw gan dîm newyddion ITV hefyd.

Bu cyfres flynyddol o ymarferion tân – pump y tu allan i oriau ac un oddi mewn i oriau, a'r cyfan yn ddirybudd.

Roedd Ymarfer Ebony ym mis Hydref 2013 yn ymarfer gwrth-derfysgaeth a bennwyd fel ymarfer digonol.

Cynhaliwyd Ymarfer Chicago ar 6 Tachwedd 2013. Arddangosfa Lefel 1 oedd hon ac fe'i pennwyd yn ddigonol, gyda meysydd i'w gwella wedi'u datgan a'u rhoi ar waith.

Cynhaliwyd Ymarfer Alaw ar y safle ym Mhencadlys yr Heddlu ym Mae Colwyn. Roedd yr Ymarfer Arddangosfa Lefel 2 hwn a gynhelir deirgwaith y flwyddyn, ac a oedd wedi'i drefnu ar gyfer 2014, wedi cael ei symud i gael ei gynnal ynghynt, ar Dachwedd 13eg 2013, at bwmpas rhoi sylw i'r meysydd i'w gwella a gafodd eu datgan yn ystod Arddangosfa Lefel 2 Trawsfynydd Ymarfer Fflint, a gynhaliwyd ddydd Iau 10fed Mai 2012. Pennwyd yr ymarfer hwn yn ddigonol a chafodd meysydd i'w gweithredu eu datgan a'u rhoi ar waith. Diolchwyd i'r ganolfan rheoli gwasanaethau brys am eu cyfraniad.

O edrych ymlaen, mae ymarferion diogelwch/amddiffyn mewnol wedi'u trefnu ar gyfer misoedd Hydref a Thachwedd ac, ar yr 17^{eg} Rhagfyr, bydd ymarfer lefel un cyfun yn cael ei gynnal.

O ran ymarferion amgylcheddol, roedd dau wedi cael eu cwblhau eisoes ddiwedd mis Ebrill a dechrau mis Mai ac roedd tri arall i ddilyn yn ystod yr wythnosau nesaf.

Mae bwriad i gynnig ymarfer argyfwng ar gyfer Maentwrog eleni, a hefyd cyfres o ymarferion tân. Bydd hyn yn cynnwys y Gwasanaeth Tân ac Achub Lleol a Thimau Achub arbenigol o bosib.

Atgoffodd y Cadeirydd y grŵp bod safle Maentwrog yn dod o dan reolaeth Wylfa.

Mae cyfres o ymarferion yn cael eu trefnu, sy'n cynnwys defnydd o offer argyfwng Sail Tu Hwnt i Gynllun a'r Gweithdrefnau Gweithredu Mewn Argyfwng sydd wedi cael eu rhoi ar waith yn dilyn y digwyddiad yn Fukushima.

Mae'r gyfres flynyddol o ymarferion tân a oedd wedi'i threfnu ar gyfer misoedd Ebrill a Mai 2014 wedi cael ei gohirio oherwydd cyfnod segur estynedig ar R1 a chyflwyno gwaith tîm dydd a gyda'r nos.

Diolchodd y Cadeirydd i Derek Jones am ei ddiweddariad cynhwysfawr.

12. Fforwm Agored a Sesiwn Holi ac Ateb

Holodd Helen Grove White a fyddai'n bosib cael eglurhad pellach ynghylch y dyddiad ar gyfer datgomisiynu.

Eglurodd Stuart Law bod disgwyl i'r orsaf barhau i gynhyrchu tan 31 Rhagfyr 2015. Mae disgwyl asesiad ONR o'r Adolygiad Diogelwch Cyfnodol ac mae angen cymeradwyaeth yr Adran Ynni a Newid Hinsawdd hefyd.

Bydd y rhaglen o wagio'r tanwydd yn cymryd tair blynedd (2016, 2017 a 2018) ond mae hynny'n dibynnu ar nifer y fflasgiau ar y safle ac fe all gymryd llai o amser, gan fod llai o danwydd ar y safle bellach. Bydd hyn yn mynd â Wylfa at ddiwedd 2026. Nododd y byddai'n ddiddorol clywed beth yw bwriad y Sefydliad Rhiant Gorff newydd ar gyfer y safle.

Dymunodd y Cadeirydd yn dda i'r safle gydag ymestyn y cynhyrchu ac aeth ymlaen i ofyn i Richard Foxhall, Pŵer Niwclear Horizon, a fyddai'n hoffi dweud gair.

Eglurodd Richard Foxhall bod cyfarfod o'r Grŵp Cyswllt â'r Cyhoedd wedi cael ei gynnal y noson cynt. Dymunodd yn dda i Stuart Law gydag ymestyn y cynhyrchu a dywedodd ei fod yn amser prysur ar safle Horizon a'i bod yn bwysig gweithio'n ddiogel. Nid cyfarfod Horizon oedd hwn ond byddai'n fwy na pharod i drafod unrhyw faterion yn dilyn y cyfarfod.

13. Unrhyw Fater Arall

Dyddiad y cyfarfod nesaf yw 11 Medi 2014.

Daeth y cyfarfod i ben am 6.10 yh.